

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# 2016: Blwyddyn Antur Cymru

Sicrhewch fod eich busnes **chi'n** elwa ar y Flwyddyn Antur. Dyma ganllaw cam wrth gam.

#AnturCyrmu



➤ Clawr: Arforgampau, ger Rhoscolyn, Ynys Gybi, Ynys Môn
➤ Y dudalen hon: Beicio mynydd, Coed y Brenin, Eryri

Caiff 2016: Blwyddyn Antur Cymru ei gyhoeddi gan Croeso Cymru, is-adran Twristiaeth a Marchnata Llywodraeth Cymru 2015. Croeso Cymru, Llywodraeth Cymru, Canolfan QED, Y Brif Rodfa, Ystad Ddiwydiannol Trefforest, Pontypridd CF37 5YR.

Ffotograffiaeth: Hawlfraint y Goron (2015) Croeso Cymru



## Pleser oedd cyhoeddi'n gynharach eleni gyfres o flynyddoedd thematig ar gyfer Cymru. Blwyddyn Antur fydd 2016.

Bwriad y Flwyddyn Antur fydd manteisio ar yr holl atyniadau a datblygiadau newydd cyffrous sydd wedi agor, ynghyd â dros 10 mlynedd o fuddsoddi parhaus i wneud Cymru'n un o gyrchfannau antur blaenllaw'r DU. Mae'r sector gweithgareddau awyr agored – sy'n llawn ysbrydoliaeth a dyheadau – werth £481 miliwn i economi Cymru ac mae'n mynd o nerth i nerth ar draws y byd.

Bydd y Flwyddyn Antur yn hybu buddsoddiadau pellach, datblygiadau ym maes prosiectau a marchnata ar draws fy mhortffolio a thu hwnt: gan ysgogi pobl Cymru, ysbrydoli ein marchnadoedd twristiaeth, rhoi abwyd newydd i'r cyfryngau a chyfoethogi neges brand Cymru ar draws y byd.

Dros y misoedd diwethaf rwyf wedi cael cyfle i fwynhau sawl antur yng Nghymru ac rwy'n gwybod o brofiad mai cryfder Cymru yw'r dewis arbennig o anturiaethau y gallwn eu cynnig i ymwelwyr o bob oedran a phob gallu – rhai llawn adrenalin wrth gwrs a hefyd gwahanol anturiaethau corfforol, diwylliannol a naturiol. Mae rhywbeth rhyfeddol at ddant pawb yng Nghymru – dyma'r neges y mae angen i bob un ohonom ei hybu.

Dyma'r amser i ddatblygu prosiectau a syniadau newydd, a rhoi gwybod i ni beth rydych yn gweithio arno. Dilynwch ni ar Twitter a chofrestrwch i dderbyn ein Cylchlythyrau er mwyn clywed rhagor am y digwyddiadau, yr ymgyrchoedd a'r cyfleoedd sydd i ddod.

Ymunwch â ni ar antur newydd – gan ymfalchïo. A chymryd rhan.

**Ken Skates**
Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

# Mae eich Blwyddyn Antur yn cychwyn yma ➤

# Mae Croeso Cymru wedi mabwysiadu'r thema 'Blwyddyn Antur' ar gyfer 2016.

Bydd ein blwyddyn fawr yn dathlu Cymru fel gwlad lewyrchus sy'n llawn bwrlwm a'n nod fydd creu enw iddi fel cyrchfan antur o'r radd flaenaf o fewn y DU.

Gall Cymru bellach ymfalchïo yn y ffaith bod ganddi atyniadau o'r radd flaenaf ar gyfer y rhai sy'n ceisio adrenalin gan gynnwys Zip World, Surf Snowdonia a'r trampolîn dan ddaear mwyaf yn y byd. Mae ein canolfannau beicio mynydd – mewn mannau fel Coed-y-Brenin a Bike Park Wales – cystal â'r gorau yn y byd a Llwybr Arfordir Cymru sy'n 870 milltir o hyd yw llwybr di-dor hiraf y byd ar hyd arfordir gwlad. Gallwch badlfyrddio, ceufadu neu rafftio yng nghanol ein prifddinas – a ni a ddyfeisiodd arforgampau.

Cofiwch chi, mae'r Flwyddyn Antur yn golygu llawer iawn mwy na gweithgareddau llawn adrenalin.

Mae ein diffiniad o antur hefyd yn cynnwys:

- Profiadau sy'n galluogi pobl i ddysgu mwy amdanynt eu hunain.
- Profiadau sy'n seiliedig ar dreftadaeth ddiwylliannol Cymru, sy'n gyfoethog iawn.
- Anturiaethau i'r meddwl yn ogystal â'r corff.

Mae'n golygu sawl peth gan gynnwys mwynhau gŵyl neu ddwy, gwylio bywyd gwyllt, darganfod bwyd lleol blasus (a chyfarfod â'r cynhyrchwyr mewn gwyliau bwyd) ac archwilio murfylchau caer fynyddig a niwlog. Mae ein hanturiaethau'n digwydd yn yr awyr agored ac mewn ffyrdd newydd ac annisgwyl o fewn trefi, dinasoedd a safleoedd hanesyddol. Dyma anturiaethau ar gyfer pobl o bob oedran a phob gallu.

## Beth yw diben yr arweinlyfr hwn felly?

Yn fyr, mae'n dangos sut y gallwch **chi** – a'ch busnes – elwa ar y Flwyddyn Antur. Dyma arweinlyfr i bawb, o westai i lety gwely a brecwast a llety hunanddarpar, atyniadau i ymwelwyr a darparwyr gweithgareddau.

Gwyddom eich bod yn brysur yn rhedeg eich busnes felly rydym wedi creu arweinlyfr syml a chlir sy'n llawn cyngor a gwybodaeth ymarferol. Nid oes angen i chi ddarllen y cyfan, o glawr i glawr, ar yr un pryd. Gallwch ddewis darllen gwahanol rannau ohono, sydd o ddiddordeb arbennig i chi ac sy'n berthnasol.

Yn fyr, dyma'r hyn sydd ynddo:

- Beth y mae twristiaeth antur yn ei olygu i Gymru – a pham rydym mor llwyddiannus.
- Cyngor ymarferol – adnabod eich marchnad a gwybod sut y gallwch elwa ar y Flwyddyn Antur.
- Gosod esiampl – barn busnesau yng Nghymru ynghylch y Flwyddyn Antur, a sut y mae gwledydd eraill yn mynd i'r afael â thwristiaeth antur.
- Llysgenhadon y Flwyddyn Antur.
- Rhagor o wybodaeth.

Gall pawb fod yn rhan o'r Flwyddyn Antur – eich blwyddyn **chi** ydyw yn y bôn, ynghyd â'ch cyfle chi i fod yn anturus wrth farchnata eich busnes. Ewch amdani felly.

➤ Gŵyl y Dyn Gwyrdd, Glanwysg, Powys.





➤ Camlas Llangollen, Llangollen

## Nodi'r dyddiadau

Y peth cyntaf i'w nodi yw mai Blwyddyn Antur 2016 fydd y gyntaf o dair blynedd thematig i Gymru. Blwyddyn yr Anfarwolion fydd 2017 a Blwyddyn y Môr fydd 2018. Marchnata sy'n canolbwyntio ar **gynnyrch** yw'r ffordd ymlaen. Mae'r Flwyddyn Antur yn sicrhau'r sylw mwyaf posibl i un o gynhyrchion gorau Cymru.

Hoffem:

- Ysgogi'r diwydiant.
- Rhoi abwyd newydd i'r cyfryngau ac ailfywiogi brand Cymru ar draws y byd.
- Sbarduno pobl Cymru.
- Creu ffocws ar gyfer buddsoddiad.
- Ysbrydoli marchnadoedd targed i feddwl yn wahanol a denu ymwelwyr newydd i Gymru nawr.
- Bod yn gyrchfan antur blaenllaw o fewn Ewrop, gan gynnig profiadau diogel, cynaliadwy a moesol.
- Croesawu anturiaethwyr o bob oedran, gallu a diddordeb.

## Pam felly mai Blwyddyn Antur fydd 2016?

- **Mae teithio antur yn dod yn fwyfwy poblogaidd.** Mae mwy a mwy o bobl yn chwilio am brofiadau newydd a chyffrous. Mae angen i ni weithredu yn awr er mwyn manteisio ar hyn.
- **Rydym eisoes ar y map.** Mae mannau, digwyddiadau a chynhyrchion eiconig Cymru mewn sefyllfa ddelfrydol i fodloni'r farchnad hon sy'n prysur dyfu. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi llawer iawn mewn twristiaeth antur ar draws Cymru, a chaiff llawer o'n profiadau antur eu cydnabod eisoes ar draws y byd. Mae angen i ni adeiladu ar y momentwm hwn a manteisio ar y cyfle hwn i adrodd ein hanes.
- **Mae llawer yn digwydd.** 2016 fydd canmlwyddiant geni Roald Dahl, sef yr awdur a aned yng Nghymru ac a ryfeddodd ddarllenwyr ar draws y byd gyda'i hanesion ynghylch anturiaethau hudolus. Dyma'n hysbrydoliaeth ar gyfer nifer o ddigwyddiadau.
- **Dewis doeth.** O safbwynt y rhan fwyaf o'r DU, gall Cymru gynnig y diriogaeth anturus, naturiol ac amrywiol agosaf – gan gynnwys yr arfordir a'r wlad. Gall ymwelwyr o'r rhan fwyaf o Loegr gyrraedd sawl rhan o Gymru o fewn ychydig oriau. Gan gofio bod y rhan fwyaf o bobl yn dod ar wyliau byr lle y mae amser yn brin, mae hyn yn cyfleu neges bwysig i'n marchnadoedd allweddol sy'n chwilio am wahanol bethau i'w gwneud ar garreg eu drws.

## Beth sy'n digwydd felly?

Bydd pob mathau o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal yn 2016, o heriau sy'n llawn adrenalin fel Ironman Cymru, Marathon Eryri a'r Dragon Ride i wyliau celfyddydol, bwyd, cerddorol a diwylliannol. Mae rhai gweithgareddau'n cael eu trefnu neu eu cefnogi gan Croeso Cymru tra bo eraill yn cael eu cyflenwi gennych chi, ein partneriaid o fewn y diwydiant. Mae'r rhaglen lawn yn newid yn barhaus ond gallwch ein dilyn ar @croesocymrubus i dderbyn diweddariadau rheolaidd.

Bydd ymgyrch ein Blwyddyn Antur yn cael ei gyflwyno ar draws y DU, Gweriniaeth Iwerddon a hefyd o fewn marchnadoedd â blaenoriaeth yn yr Almaen. Mae'r uchafbwyntiau o safbwynt gweithgareddau a digwyddiadau a gaiff eu harwain gan yr ymgyrch ar gyfer chwarter cyntaf 2016 yn cynnwys:

- Dathliad cychwynnol yn nigwyddiad Nofio Dydd Calan Saundersfoot ar 1 Ionawr.
- Ein hymgyrch #FyAntur a fydd yn cychwyn ar draws y DU o ddiwedd mis Ionawr.
- Sioe Deithiol Antur Croeso Cymru a fydd yn ymweld â dinasoedd Ewropeaidd allweddol yn ystod tri mis cyntaf y flwyddyn.
- Penwythnos Antur, 2/3 Ebrill.

## #gwladgwlad

Deillia thema'r ymgyrch hon ar gyfer y Flwyddyn Antur o frand newydd Croeso Cymru, sy'n cyflwyno Cymru fel gwlad hyderus a balch lle y gall ymwelwyr ganfod eu profiadau anhygoel eu hunain. Mae dau gam i'r ymgyrch hwn. Bydd pwyslais i ddechrau ar ddatblygu'r brand ac ysbrydoli ac yna bydd newid ffocws er mwyn cyflwyno rhesymau mwy penodol dros ymweld â Chymru – a hynny yn awr.

## Penwythnos Antur, 2/3 Ebrill

Ewch ati i agor eich drysau, cydweithio a chreu syniadau blaengar....

Nod y Penwythnos Antur yw dod â phobl ynghyd er mwyn creu mas critigol o ddigwyddiadau, gweithgareddau, cystadlaethau, cynigion arbennig a gostyngiadau o dan y thema antur o fewn gwahanol ardaloedd, ac ar draws Cymru.

Ein nod cyntaf yw cyflwyno profiadau antur heb eu hail i bobl Cymru a hefyd i bobl sydd eisoes yma ar wyliau. Hoffem annog pobl i roi cynnig ar bethau newydd, mwynhau eu hunain, siarad amdanom ar y cyfryngau cymdeithasol – a hefyd gwario arian.

Os gallwn greu mas critigol mawr o anturiaethau, neu greu rhai syniadau unigol arbennig gallai roi hwb i weddill y tymor drwy dynnu sylw at yr holl weithgareddau sydd ar gael yma ac ysbrydoli pobl i ddychwelyd i Gymru neu ymweld am y tro cyntaf yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Cadwch olwg ar Croeso Cymru a dilynwch ni ar @croesocymrubus i weld y darlun cyflawn.

## Adnabod eich marchnad

Mae teithwyr antur yr un mor amrywiol â chefn gwlad ac arfordir Cymru. Mae deall pwy ydynt a gwybod beth y maent ei eisiau'n gwbl allweddol er mwyn sicrhau eich bod yn elwa i'r eithaf ar ein Blwyddyn Antur.

### Arbenigwyr Antur

**Pwy:** Yn mwynhau profiadau eithafol – cyplau, grwpiau, gwarbacwyr

**Oed:** 18–55+

**Ffeithiau Allweddol:**

- Ystod oedran eang. Diddordeb mawr mewn gweithgaredd arbenigol
- Yn teithio ar hap y tu allan i'r tymor prysur er mwyn mwynhau gweithgareddau penodol fel dringo, beicio mynydd neu geufadu
- Yn chwilio am brofiadau newydd a blaengar mewn lleoliadau ysblennydd

### Pobl Sy'n Chwilio Am Antur Cyn Magu Teulu

**Pwy:** Yn mwynhau anturiaethau 'meddal' – cyplau, grwpiau, gwarbacwyr

**Oed:** 18–35

**Ffeithiau Allweddol:**

- Yn mynd ar sawl trip a sawl gwyliau
- Yn fwy tebygol o ddod o Lundain, ac yn hoffi'r gorau mewn bywyd
- Pobl sydd â meddwl agored, sy'n ddewr ac yn chwilfrydig ac sy'n mwynhau rhoi cynnig ar bethau newydd tra'u bod ar wyliau

### Teuluoedd Bywiog Sy'n Chwilio Am Antur

**Pwy:** Teithwyr sydd â phlant o dan 15 oed

**Oed:** 35–55+

**Ffeithiau Allweddol:**

- Yn mynd ar sawl gwyliau, ac yn arbennig rai ar draethau a rhai i ymweld ag atyniadau; yn chwilio am leoedd lle y mae llawer iawn i'w wneud beth bynnag y bo'r tywydd
- At ei gilydd maent yn mwynhau'r pethau braf mewn bywyd
- Teithwyr anturus sy'n mwynhau dysgu am y mannau y maent yn ymweld â hwy ac am ffordd o fyw y wlad

### Teithwyr Hŷn

**Pwy:** Cyplau a grwpiau heb blant ifanc

**Oed:** 55+

**Ffeithiau Allweddol:**

- Diddordeb mewn ymweld ag atyniadau, mwynhau golygfeydd ysblennydd, treftadaeth a diwylliant
- Yn chwilio am lety a bwyd o safon uchel sy'n cynnig gwerth da am arian
- Yn croesawu'n fawr groeso cynnes

### A rhaid peidio ag anghofio'r farchnad amlwg sydd gerllaw... Pobl Cymru

Mae'r marchnadoedd targed uchod hefyd yn cynnwys elfen Gymreig gref iawn sy'n ceisio hybu twristiaeth antur, ac yn arbennig yn ystod y misoedd tawelach, ond sydd hefyd yn ceisio cyfoethogi bywydau a gwella iechyd a lles pobl Cymru.



➤ Cerdded, Bannau Brycheiniog

# Bod yn ymarferol

Dyma, o bosib, ran bwysicaf yr arweinlyfr hwn – y rhan sy'n cynnwys cyngor defnyddiol ac ymarferol. Rydym yn awyddus i annog pawb i gyfrannu at y gwaith o sicrhau bod y Flwyddyn Antur yn cael ei hyrwyddo er lles pob rhan o'r diwydiant, o'r llety gwely a brecwast lleiaf i'r atyniadau mwyaf.

Bydd y Flwyddyn Antur yn ddathliad a hefyd yn gyfle. Gallwn fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo a thynnu sylw at y prosiectau a'r syniadau mwyaf sy'n bodoli – ond rydym hefyd yn awyddus i sicrhau y bydd yn ffordd ddefnyddiol i chi farchnata'ch cyrchfan neu'ch busnes unigol.

Sut y gallwch chi gymryd rhan, felly? Sut y gallwch chi elwa ar y Flwyddyn Antur? Beth ddylech chi ei wneud nesaf? Dyma rai awgrymiadau a syniadau ar gyfer cychwyn arni.

## Ewch amdani – nawr

- **Rhoi'r gair ar led.** Cysylltwch â'r cwsmeriaid sydd ar eich rhestr bostio er mwyn rhoi gwybod iddynt y bydd 2016 yn Flwyddyn Antur, a chan ddisgrifio rhai o'r pethau a fydd yn digwydd.
- **Casglu gwybodaeth.** Dechreuwch gasglu gwybodaeth am ddarparwyr anturiaethau a gweithgareddau o fewn eich ardal.
- **Rhannu gwybodaeth.** Ewch ati i gynnwys enghreifftiau o anturiaethau a manylion ynghylch gweithgareddau ar eich gwefan. Crëwch amserlenni ar gyfer eich gwesteion a sicrhewch fod gennych lawer iawn o wybodaeth am eich ardal leol wrth law (crëwch lyfr lloffion yn llawn taflenni ac erthyglau sy'n dangos beth y gall pobl ei wneud yn yr ardal).
- **Cydweithio.** Cydweithiwch â busnesau lleol eraill er mwyn gallu cynnig y profiadau cyfunol gorau posibl i'ch gwesteion. Ystyriwch fusnesau eraill fel cydweithwyr yn hytrach na phobl sy'n cystadlu yn eich erbyn. Hyrwyddwch ar y cyd, trefnwch gyfraddau gostyngol ac arbennig a hefyd gyfleoedd munud olaf i archebu gyda darparwyr gweithgareddau.
- **Cyflawni mwy nag un dasg ar yr un pryd.** Mae llawer o ymwelwyr yn awyddus i gyfuno profiadau amrywiol iawn (cerdded a blasu wisgi o Gymru, beicio a gwylio barcutiaid coch, etc). Does dim o'i le ar hynny gan mai gwlad fach yw Cymru ac mae cymaint o weithgareddau ac anturiaethau i'w profi. Beth am gynnig neu awgrymu nifer o weithgareddau gwahanol ar gyfer diwrnod neu benwythnos?
- **Paratoi.** Gwnewch yn siŵr eich bod chi a'ch staff yn ymwybodol o rai o'r digwyddiadau allweddol sydd ar y gweill fel rhan o'r Flwyddyn Antur. Os bydd eich busnes yn darparu profiadau antur cofiwch sicrhau bod eich staff wedi'u hyfforddi'n briodol.
- **Diwallu anghenion.** Darparwch gyfleusterau storio a glanhau ar gyfer esgidiau a dillad antur mwdlyd, ac argraffwch adroddiad tywydd dyddiol ar gyfer gwesteion sy'n cynllunio eu gweithgareddau awyr agored.
- **Croesawu cerddwyr a beicwyr.** Ymunwch â'n cynlluniau 'Croeso i Gerddwyr a Beicwyr' drwy ddarparu cyfleusterau defnyddiol fel lle i storio beiciau, ardaloedd sychu ac ati. Byddant yn hwb sylweddol i'ch marchnata, ac yn arbennig yn ystod y Flwyddyn Antur.



➤ Snorclo oddi ar y traeth, Abersoch, Penrhyn Llyn

- **Cymryd rhan.** Ewch ati i gynnal ymgyrchoedd a chynigion arbennig o dan y thema antur a soniwch wrth eich gwesteion am ein calendr o ddigwyddiadau.
- **Cynnig cyswllt Wi-Fi.** Mae llawer o fusnesau yng Nghymru'n cynnig cyswllt Wi-Fi i'w gwesteion. Mae'n gwbl angenrheidiol. Rydych yn colli cyfle (a llawer o gwsmeriaid posibl) fel arall.
- **Cofio'r plant.** Os yw plant yn rhan o'ch marchnad darged crëwch gysylltiadau gyda busnesau eraill tebyg a threfnwch ddyddiau grŵp – mae plant yn mwynhau cwmni ei gilydd.
- **Troi'n wyrdd.** Gwnewch eich busnes yn fwy ecogyfeillgar – a rhowch wybod i bawb.
- **Mae safon yn bwysig.** Cofiwch elwa i'r eithaf ar gynlluniau graddio ac achredu ar gyfer llety, atyniadau a darparwyr gweithgareddau (gweler adran 'Mae safon yn bwysig' yr arweinlyfr hwn).
- **Mynd amdani a bod yn flaengar.** Os ydych yn fusnes antur sy'n ystyried ychwanegu profiad neu gynnyrch newydd at eich darpariaeth bresennol, dyma'r amser i wneud hynny. Rhowch eich cynlluniau ar waith heddiw fel y byddwch yn barod ar gyfer 2016.

## Ydych chi wedi ystyried...?

- **Newid bach, gwahaniaeth mawr.** Rhowch fap i fyny o'r llwybrau cerdded yn eich ardal, darparwch wybodaeth mewn pecynnau croeso, darparwch esgidiau glaw a dillad glaw sbâr er mwyn helpu eich gwesteion i archwilio, crëwch fwydlen o dan y thema antur yn cynnwys cynhwysion lleol anarferol.
- **Anelu'n uwch a gweithredu'n lleol.** Cydweithiwch â busnesau eraill yn eich ardal er mwyn cynnal eich digwyddiadau antur bach eich hunain i gyd-fynd â rhai o'r prif ddyddiadau yng nghalendr Croeso Cymru (fel y Penwythnos Antur a fydd yn cael ei gynnal ym mis Ebrill 2016).
- **Profiadau gwirioneddol a rhyngweithiol.** Mae ymwelwyr heddiw'n chwilio am brofiadau gwirioneddol a gonest. Lle y bo'n bosibl, seiliwch eich anturiaethau ar brofiadau lleol, gwirioneddol, personol ac unigryw nad oes modd eu darparu yn unrhyw le arall. Sicrhewch eu bod yn rhyngweithiol ac yn cynnig profiadau ymarferol – mae pobl eisiau gwneud mwy na dim ond sefyll a syllu.
- **Gair i gall.** Mae'r hyn y mae pobl eraill yn ei ddweud amdanoch chi yn cael mwy o effaith ac yn sicrhau mwy o hygrededd na dulliau hysbysebu arferol. Cydweithiwch gyda Croeso Cymru er mwyn tynnu sylw newyddiadurwyr a blogwyr teithio at eich busnes.
- **Dewis enillydd.** Beth am gynnig gwobr llawn antur fel gwobr i'w defnyddio yn un o ymgyrchoedd hyrwyddo Croeso Cymru?
- **Mynd gam ymhellach.** Darparwch wasanaeth codi a gollwng, sy'n ddefnyddiol iawn i gerddwyr – a hefyd feicwyr a all drefnu bod y cyfarpar y maent yn ei rentu'n cael ei gludo i'r llety. Dylech hefyd ddarparu manylion ynghylch trafnidiaeth gyhoeddus.
- **Bod yn hyblyg.** Ystyriwch y gallai rhai gwesteion ddymuno bwyta'n gynharach neu'n hwyrach nag arfer.
- **Bod yn llysgennad.** Caiff ein Llysgenhadon swyddogol ar gyfer y Flwyddyn Antur eu henwi mewn rhan arall o'r arweinlyfr hwn. Gallwch chwarae eich rhan yn ogystal drwy annog eich gwesteion i roi cynnig ar rywbeth gwahanol – mae llawer o ddarparwyr antur yn cynnig cyrsiau blasu ar gyfer dechreuwyr.
- **Siarad o brofiad.** Rhowch gynnig ar rai anturiaethau lleol eich hunain – gallwch eu gwerthu'n frwd i'ch gwesteion ar sail eich profiad uniongyrchol chi.
- **Ymfalchïo.** Os oes gennych brofiad antur eiconig ar garreg eich drws cofiwch dynnu sylw darpar westeion ato.



➤ Tramffordd y Gogarth, Llandudno

- **Cyflwyno adborth.** Darparwch adborth a geirdaon ynghylch anturiaethau gwesteion blaenorol a'u profiadau o weithgareddau.
- **Dal dychymyg anturiaethwyr ifanc.** Gallwch greu blwch croeso yn llawn eitemau hwyl (rhwydi ar gyfer dal crancod, barcutiaid, chwyddwydrau, bwcedi a rhawiau), creu silff o lyfrau antur wedi'i ysbrydoli gan Roald Dahl, llunio map drysor leol.
- **Ar ddiwedd y dydd…** Mae anturiaethwyr yn mwynhau ymlacio hefyd. Beth am awgrymu tafarnau a bwytai da sy'n cynnig awyrgylch lleol a hamddenol – a bwyd lleol. Beth am groesawu eich gwesteion ar ôl diwrnod prysur gyda the a chacennau, siocled a choffi.
- **Diogelwch.** Holwch eich gwesteion am y llwybr a'r ardaloedd y maent am eu dilyn. Os ydynt yn hwyr am unrhyw reswm gallai hyn helpu'r gwasanaethau brys os bydd angen iddynt roi ymateb cydlynol ar waith.

## Manteisio ar TG

Manteisiwch ar yr holl bosibiliadau sydd ynghlwm wrth TG a sicrhewch eich bod yn ymwybodol o bopeth sy'n digwydd yn 2016. Gallwch ddefnyddio TG i hyrwyddo'r gweithgareddau yr ydych chi'n eu cynnal fel rhan o'r Flwyddyn Antur.

- **Creu cysylltiadau.** Ychwanegwch restr o ddarparwyr gweithgareddau lleol ar eich gwefan chi
- **Sicrhau sylw** drwy wefan Croeso Cymru. Gallwch ychwanegu neu ddiweddaru eich gwybodaeth ar ein hoffer chwilio sy'n cynnwys gwybodaeth am lety, gweithgareddau, atyniadau a digwyddiadau. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.visitwales.com/working-with-us
- **Cadw mewn cysylltiad.** Rhowch wybod i ni am eich cynnyrch a'ch digwyddiadau antur drwy anfon e-bost at blwyddynantur@cymru.gsi.gov.uk
- **Dilyn ni.** Cofiwch ein dilyn ar Twitter @croesocymrubus er mwyn clywed y newyddion diweddaraf
- **Postio.** Gallwch godi eich proffil drwy bostio cynnwys, lluniau a ffilmiau am anturiaethau ar eich gwefan ac ar y cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, Instagram, Twitter ac YouTube – a'u rhannu â Croeso Cymru (gweler isod am fanylion ynghylch y cyfryngau cymdeithasol)
- **Hashnodau.** Gallwch ddefnyddio'r hashnodau #AnturCymru a #Wales Adventure yn eich negeseuon yn y cyfryngau cymdeithasol
- **Cefnogi.** Cefnogwch ein hymgyrch #gwladgwlad a #FindYourEpic

## Dilynwch ni ar-lein

Cofiwch ddilyn ein negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol i weld newyddion arbennig am y Flwyddyn Antur ac anogwch eich ymwelwyr i wneud hynny yn ogystal. Cofiwch rannu eich cynnwys â ni hefyd.

Facebook – www.facebook.com/visitwales

Instagram – @visitwales

Twitter – @croesocymru

You Tube – www.youtube.com/user/visitwales

Pinterest – uk.pinterest.com/visitwales

➤ Cerddwyr ger y copa, Yr Wyddfa



# Ar y blaen

Bydd y Flwyddyn Antur yn tynnu sylw at ein cryfderau fel gwlad. Heb os, rydym ar y blaen o safbwynt anturiaethau. Gwnaeth ymwelwyr Fictorianaidd – y twristiaid cyntaf – grwydro ein bryniau a hwylio i lawr ein hafonydd. Bu Eryri'n flaengar o safbwynt datblygu gweithgaredd dringo creigiau a gwnaeth y tîm a goncrodd Everest gyntaf yn yr 1950au hyfforddi yno. Cymru oedd y wlad gyntaf ym Mhrydain i greu canolfannau pwrpasol ar gyfer beicio mynydd. Mae gennym fwy o gestyll fesul milltir sgwâr nag unrhyw le arall yn y byd. Llwybr Arfordir Cymru yw'r llwybr arfordirol cenedlaethol di-dor cyntaf yn y byd. Erbyn hyn yn ogystal mae mwy o recordiau byd yn cael eu torri gan atyniadau newydd a deinamig fel Zip World a Surf Snowdonia.

Deillia ein manteision fel 'prif ddinas antur' o'r ffaith bod gennym amgylchedd naturiol eithriadol a threftadaeth ddiwylliannol ac artistig unigryw, sef adnoddau sy'n arwain at bob mathau o anturiaethau personol – sy'n rhai heriol, creadigol, corfforol ac ysbrydol.

## Beth yw gwerth hyn?

Llawer iawn. Mae gwyliau antur/gweithgareddau yn yr awyr agored yn cyfrannu dros £481 miliwn at economi Cymru. Ar lefel fyd eang, dywed Cymdeithas y Diwydiant Teithio Antur fod gwerth twristiaeth antur ar draws y byd – yn ei ystyr ehangach, a chan gynnwys darpariaeth 'galed' a 'meddal' – wedi cynyddu dair gwaith, o £55 biliwn yn 2009 i'r swm rhyfeddol o £163 miliwn yn 2013.

## Agwedd bositif

Rydym eisoes wedi cyflawni cymaint drwy ein hagwedd bositif. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol mewn antur ar draws Cymru. Trwy'r rhaglen Amgylchedd ar gyfer Twf, er enghraifft, cafodd dros £37 miliwn ei fuddsoddi mewn wyth Canolfan Ragoriaeth newydd, gan gynnwys Canolfan 360 Chwaraeon Traeth a Dŵr Abertawe, Bike Park Wales ym Merthyr Tudful a chynlluniau amlweithgareddau mewn lleoliadau allweddol yn Eryri.

Mae un lleoliad yn benodol – sef Llanwrtyd – wedi profi'r hyn y mae modd ei gyflawni gydag agwedd bositif. Mae'r gyn dref sba yn y Canolbarth (a arferai fod yn dawel iawn) wedi trawsnewid ei sefyllfa drwy gyflwyno rhaglen wreiddiol (a braidd yn wallgof) o wyliau a digwyddiadau sy'n cynnwys gweithgareddau fel snorclo mewn corsydd a rasys marathon lle y mae pobl yn cystadlu yn erbyn ceffylau.

Mae Gŵyl y Gelli wedi tyfu o ŵyl a gâi ei chynnal mewn pabell yng nghanol cae i fod yn ŵyl ddiwylliannol uchel iawn ei bri ar draws y byd, mae Gŵyl y Dyn Gwyrdd yng Nghrucywel a Gŵyl Rhif 6 Portmeirion yn cael adolygiadau arbennig a chaiff Gŵyl Fwyd y Fenni ei chydnabod bellach fel prif ddigwyddiad bwyd y DU.

Mae hyn oll yn tystio i'r ffaith y gall agwedd bositif arwain at bob mathau o bethau. Dyma sylfeini ein Blwyddyn Antur.

## Cydweithio

Rydym yn croesawu'r cyfleoedd a fydd yn deillio o'r Flwyddyn Antur o safbwynt cydweithio â busnesau twristiaeth. Rydym eisoes wedi amlinellu rhai o'r camau ymarferol y gallwch eu cymryd yn yr adran 'Bod yn ymarferol'.



➤ Awyr dywyll, Bannau Brycheiniog

Mae mesurau eraill yn cynnwys gwireddu prosiectau a syniadau drwy wahanol gynlluniau cyllido, fel y Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth a'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth. Rydym yn chwilio am nifer llai o ddigwyddiadau a phrofiadau sy'n fwy o faint, yn fwy eiconig ac sy'n diffinio brandiau penodol, ynghyd â llawer o atyniadau ategol ar draws y wlad, gydol y flwyddyn.

Cysylltwch â'ch tîm rhanbarthol perthnasol er mwyn trafod (gweler 'Gwybodaeth Ddefnyddiol') twristiaethrhanbarthol@cymru.gsi.gov.uk neu ewch i: www.business.wales.gov.uk/dmwales/support/investment-support

## Partneriaeth ar gyfer Twf

Mae Cronfa Partneriaeth ar gyfer Twf Llywodraeth Cymru'n annog rhagor o gydweithio er mwyn gwella'r hyn a gynigir i dwristiaid mewn modd cynaliadwy sy'n creu elw. Mae'r cyllid ar gyfer 2015/2016, sy'n canolbwyntio ar fentrau a arweinir gan ddarpariaeth sy'n gysylltiedig â'r Flwyddyn Antur, bellach wedi'i ddyrannu. Bydd y canlynol yn derbyn cyllid:

- Cyngor Gwynedd – Prosiect y Flwyddyn Antur
- Cyngor Sir Ddinbych – Anturiaethau Bach o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – Llwybr Cerdded/Beicio Rhanbarthol Ffordd y Bannau
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Awyr Dywyll: Parciau Gwych
- Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De-orllewin Cymru – Antur Wyllt yng Nghymru
- Cyngor Dinas Casnewydd – Prosiect Beicio Prifddinas-Ranbarth
- Cyngor Sir Fynwy – Twristiaeth Bwyd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Cymdeithas Lletygarwch Prydain Cymru – Llwybr Antur Bwyd Cynaliadwy Cymru

## Ymgysylltu â chi

Yn yr un modd â'r Gronfa Partneriaeth ar gyfer Twf, mae'r cyllid o fewn y Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Rhanbarthol wedi'i ddyrannu ar gyfer 2015/16. Er mwyn cefnogi'r Flwyddyn Antur mae £1 miliwn wedi'i dyrannu ar draws Cymru. Dyma enghreifftiau o'r pedwar rhanbarth.

**Llwybr Antur De-ddwyrain Cymru.** Mae 'Dilyn y Sêr' yn canolbwyntio ar Safleoedd Darganfod Awyr Dywyll yn Rhondda Cynon Taf, Sir Fynwy, Blaenau Gwent a Chaerffili. Mae darparwyr twristiaeth yn derbyn hyfforddiant llywio Awyr Dywyll fel bod modd iddynt gynorthwyo ymwelwyr i werthfawrogi awyr y nos. Bydd un ar ddeg o ddigwyddiadau Awyr Dywyll yn cael eu cynnal, a hynny o bosibl ar sail sesiynau blasu ar safleoedd darganfod awyr dywyll, arsylwadau solar, digwyddiadau astronomegol etc. Caiff fideo ei gynhyrchu er mwyn tynnu sylw at safleoedd darganfod awyr dywyll ac awyr y nos ar YouTube. Caiff y digwyddiadau a'r safleoedd eu hyrwyddo drwy gysylltiadau cyhoeddus a sianeli'r cyfryngau cymdeithasol.

**De-orllewin Cymru:** Prosiect Cyrchfan Sir Gaerfyrddin. Y nodau yw datblygu a hyrwyddo Sir Gaerfyrddin fel cyrchfan gweithgareddau cystadleuol, a chwarae rhan allweddol yn yr ymgyrch cyffredinol sy'n cyflwyno Cymru fel y brif wlad yn y byd ar gyfer twristiaeth antur. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy:

- Bennu prif weithgareddau antur Sir Gaerfyrddin.
- Adolygu'r gweithgareddau/anturiaethau sydd ar gael er mwyn tynnu sylw at unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth bresennol.
- Pennu a chreu cyfleoedd newydd ar gyfer gweithgareddau antur.
- Creu deunyddiau hyrwyddo digidol.
- Datblygu gweithgareddau blaengar o fewn y cyfryngau cymdeithasol.

**Canolbarth Cymru:** Partneriaeth Cyrchfannau Cynaliadwy Bannau Brycheiniog. Mae'r fenter hon yn cynnwys gwaith datblygu a marchnata integredig ynghylch cyrchfannau



➤ Dyffryn Ogwen, Eryri

er mwyn paratoi ar gyfer y Flwyddyn Antur. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer Cynllun Llysgenhadon Bannau Brycheiniog. Bydd y llysgenhadon yn cael blas ar wahanol anturiaethau sy'n seiliedig ar themâu a gweithgareddau fel abseilio, saethyddiaeth, gwylio adar, llywio, astudio'r sêr, rhaeadrau dŵr a bywyd gwyllt. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys digwyddiad i ddathlu'r Llysgenhadon.

**Gogledd Cymru:** Menter beicio Ffordd Brailsford. Mae Syr Dave Brailsford wedi cyflawni mwy i roi beicio Prydeinig ar y map nag unrhyw un ers i'r beic penny farthing gael ei ddyfeisio. Mae'n aelod profiadol o Dîm Sky a Thîm Beicio Prydain ac yn hanu o bentref Deiniolen ger Llanberis. Mae bellach yn cyflawni gwyrthiau yn ei ardal enedigol drwy hyrwyddo prosiect newydd 'Ffordd Brailsford' sy'n golygu datblygu rhwydwaith beicio ffordd newydd yng Ngwynedd. Mae'r fenter yn cynnwys dau lwybr â chyfeirbwyntiau, brandio, taflen fapio a phresenoldeb ar-lein. Bydd y fenter yn dathlu llwyddiannau Syr Dave ac yn cynnwys rhai o'i hoff lwybrau beicio. Bydd y llwybrau cylchol hyn yn cynnwys llawer o gyrchfannau poblogaidd yr ardal (Caernarfon, Betws-y-coed, Beddgelert etc) ynghyd â dringfeydd heriol a golygfeydd ysblennydd.

## Mae safon yn bwysig

Mae ymwelwyr heddiw yn disgwyl llawer iawn mwy ac mae ganddynt fwy o chwaeth. Mae'n rhaid i bopeth a wnawn adlewyrchu ein hymrwymiad i gynnig profiadau o safon sy'n ddiogel, yn foesol ac yn gynaliadwy. Dyma werthoedd allweddol sy'n cyd-fynd â disgwyliadau teithwyr heddiw.

Maddeuwch i ni os ydych eisoes wedi gwneud hyn, ond os nad ydych yn rhan o gynllun perthnasol Sicrhau Ansawdd Croeso Cymru rydych yn colli allan ar gyfleoedd marchnata. Mae ein cynlluniau'n berthnasol i ddarparwyr llety ac atyniadau ac rydym wedi cyflwyno dull newydd o gydnabod darparwyr gweithgareddau awyr agored (ceir rhagor o fanylion isod).

Mae ein cynllun achredu a graddio'n rhoi sicrwydd ac yn galluogi cwsmeriaid i archebu, gan deimlo'n hyderus yn ei gylch. Bydd y cynlluniau hefyd yn creu cyfleoedd i chi gydweithio â Croeso Cymru, gan gynnwys rhestrau ar wefannau, defnyddio logos, ymweliadau gan y cyfryngau a gweithgareddau marchnata eraill ar y cyd.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i: www.llyw.cymru/twristiaeth

Neu cysylltwch â'r tîm Sicrhau Ansawdd:

- ffoniwch 0845 010 8020
- e-bost quality.tourism@cymru.gsi.gov.uk

## Darparwyr gweithgareddau

Os hoffech gydweithio â ni bydd angen i chi hunanardystio eich manylion achredu. Ewch i www.visitwales.com/wato i gael rhagor o fanylion ac i lenwi'r ffurflen hunanachredu.

Drwy fabwysiadu' r ffordd newydd hon o gofrestru, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Sefydliad Twrisitaeth Gweithgareddau Cymru (www.wato.org.uk), byddwn yn rhoi ffordd hawdd i ymwelwyr â Chymru ddewis darparwyr gweithgareddau ar sail eu gallu i gadw at arferion diogel ac effeithiol y diwydiant. Bydd yn caniatáu inni hefyd gydnabod darparwyr sy'n bodloni'n disgwyliadau o ran:

- Twristiaeth gweithgareddau sy'n gynaliadwy.
- Arferion da a safon y gofal a roddir i gwsmeriaid.

Bydd hefyd yn fodd i roi hyder inni fod gweithgareddau o ansawdd uchel, lle mae risg yn cael ei rheoli, ar gael ledled Cymru.



➤ Dyffryn Ogwen, Eryri

# Barn busnesau

Mae croestoriad o rai o brif fusnesau twristiaeth Cymru wedi mynegi eu barn ynghylch yr hyn y bydd y Flwyddyn Antur yn ei olygu iddynt hwy.

**Y Grŵp TYF**, sef y busnes antur ac addysg rhyngwladol sydd wedi'i leoli yn Sir Benfro. www.tyf.com

Dywed y Cyfarwyddwr Sefydlu, **Andy Middleton**, fod y Flwyddyn Antur yn 'ddathliad ac yn gyfle'.

'Mae'n ddathliad enfawr i ni o'r holl bethau gwych sy'n digwydd yng Nghymru – yn y mynyddoedd, yr ucheldiroedd, yr afonydd, y llynnoedd ac ar yr arfordir lle rydym wedi ein lleoli. Mae hefyd yn ddathliad o'r 30 o flynyddoedd yr ydym wedi'u treulio'n creu cyfleoedd i bobl fwynhau arforgampau, ceufadu ar y môr ac archwilio'r arfordir. Mae'r daith wedi bod yn anhygoel.'

'Mae'r Flwyddyn Antur yn creu cyfle i ni ailystyried ein perthynas â byd natur a'r awyr agored. Mae'n rhywbeth sy'n ein cyffroi'n fawr. Rydym yn bwriadu manteisio ar fwrlwm 2016 i lansio ein cyfres Oes o Anturiaethau. Mae'n golygu deall mai ystyr antur yw mynd â phobl ar daith sy'n parhau o wythnosau cyntaf bywyd hyd yr wythnosau olaf, a chydnabod bod amser yn yr awyr agored yn gwella ansawdd bywyd pawb, waeth beth yw eu hoedran a'u gallu corfforol.

'Mae'n wych fod Croeso Cymru'n cydweithio â'r sector gweithgareddau ar draws Cymru er mwyn helpu i greu rhai digwyddiadau cyffrous iawn. Rydym yn frwd dros annog mwy o bobl i fwynhau anturiaethau yng Nghymru a dyma gyfle gwych i fanteisio ar gefnogaeth gan Croeso Cymru i gyfleu'r neges hon.'

Mae gwesty **Y Talbot**, yn Nhregaron, Canolbarth Cymru, yn westy blaengar sydd â hanes llewyrchus. www.ytalbot.com

Mae eu lletygarwch eisoes yn enwog ond mae'r perchenogion sef **Mick a Nia Taylor** yn hyderus y bydd y Flwyddyn Antur yn eu galluogi i 'ystyried sut y gallwn gyflawni hyd yn oed mwy'.

Bydd gan lawer o'n gwesteion, gan gynnwys y rhai sy'n dod o Brydain a hefyd y rhai o wledydd tramor, ddiddordeb mawr yn y Flwyddyn Antur. Rydym wedi ein lleoli mewn rhan wyllt o Gymru sydd yng nghanol cefn gwlad. Mae'r cyfleoedd i feicio – ar y ffordd ac oddi arni – yn wych a gall y llwybrau cerdded fod yn heriol. Mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Caron ac Abergwesyn ar garreg ein drws.

'Mae'n antur ddiwylliannol yn ogystal. Mae'r Talbot yn dafarn Gymreig sydd wedi'i lleoli mewn ardal amaethyddol Cymraeg ei hiaith. Tafarn sy'n perthyn i'r gymuned leol yn ogystal ag i ymwelwyr yw'r Talbot. Mae ymwelwyr yn pwysleisio dro ar ôl tro pa mor gyfeillgar, cynnes a gwirioneddol yw ein croeso. Mae'r bobl leol wrth y bar bob amser yn awyddus i siarad â phawb.

'Rydym eisoes yn rhoi llawer o wybodaeth i'n gwesteion am yr ardal leol. Pleser pur yw rhannu ein brwdfrydedd ynghylch cefn gwlad a'r cyfleoedd i feicio a cherdded, ac mae'r Flwyddyn Antur wedi gwneud i ni ystyried sut y gallwn fynd gam ymhellach. Ymfalchïwn yn y croeso cynnes a gwirioneddol y mae'r Talbot yn ei gynnig a hefyd yn ein perthynas â'n gwesteion.'



➤ Gŵyl Rhif 6, Portmeirion

Mae **Halen Môn** yn halen bwrdd heb ei ail. Agorodd Canolfan Ymwelwyr newydd y cwmni yn 2015. www.halenmon.com

'Perffaith ar gyfer cyffroi eich blasbwyntiau', medd y cydsylfaenydd **Alison Lea-Wilson**.

'Bydd Blwyddyn Antur 2016 yn gyfle gwych i hyrwyddo halen môr Halen Môn. Bydd yn cyffroi'r blasbwyntiau. Mae hefyd yn gyfle i arddangos ein safle newydd a'n Canolfan Ymwelwyr newydd ar Ynys Môn sy'n rhoi cipolwg i bobl o'r prosesau cynhyrchu. Yr Ynys yw ein hysbrydoliaeth, tarddiad ein deunyddiau craidd a hefyd ein lleoliad ysblennydd.

'Mae cynnig croeso cynnes i ymwelwyr yn bwysig iawn i ni. I bob pwrpas, rydym yn gwahodd pobl i'n cartref. Uchafbwynt ymweliad â ni yw'r sesiwn cynghori ar flasu halen. Ble arall y byddai cyfle i chi eistedd i lawr, gan brofi gwahanol fathau o halen a dysgu beth sy'n gwneud Halen Môn mor wahanol?'

'Fy syniad i o antur yw cyfarfod â rhywun diddorol, bwyta neu yfed rhywbeth newydd a dysgu rhywbeth y byddai'n ei gofio ac y byddai'n siarad amdano â'm ffrindiau a'm teulu. Cymru yw'r wlad berffaith ar gyfer hyn oll. Mae dewis enfawr o bethau i'w gwneud, eu teimlo a'u blasu, a hynny o fewn ardal sy'n cynnig golygfeydd ysblennydd ac sy'n llawn pobl ddiddorol. Bydd Blwyddyn Antur 2016 yn gyfle delfrydol i ni gyfleu'r neges honno.'

Mae **Zip World** yn gwmni sydd wedi rhoi hwb sylweddol i dwristiaeth antur yng Nghymru, gan gynnig profiadau llawn adrenalin a heb eu hail yn Chwarel y Penrhyn (ger Bethesda) a Blaenau Ffestiniog.

www.zipworld.co.uk

'Cymru yw'r cyrchfan delfrydol ar gyfer anturiaethau am sawl gwahanol reswm,' medd y Cyfarwyddwr Masnachol **Sean Taylor**.

'Gwlad fach yw Cymru sy'n cynnig profiadau amrywiol iawn o fewn ardal gymharol fach. Mae iaith a diwylliant y wlad hefyd yn atyniadau mawr. Byddwn yn tynnu sylw at yr holl bethau hyn yn ystod 2016.

'O'm rhan i, profiad yw antur yr ydych yn awyddus i'w phrofi eto cyn gynted ag y bydd ar ben. Nid yw llawer o ymwelwyr yn gwybod beth i'w ddisgwyl pan fyddant yn dod yma. Anodd yw dychmygu sut brofiad ydyw bod o dan ddaear yn y Zip World Caverns a Bounce Below hyd nes y byddwch yno. Pan fydd pobl yn eu gweld ac yn eu profi, fodd bynnag, mae'n rhoi cryn wefr iddynt. Bydd y Flwyddyn Antur yn gyfle i sôn wrth hyd yn oed mwy o bobl am y profiadau rhyfeddol y gallwn eu cynnig.

'Mae cynnig croeso yn hollbwysig i ni. Does dim diben cynnig y gweithgaredd gorau yn y byd os na allwch gynnig y croeso gorau hefyd. Rydym yn rhan annatod o'n cymuned ac yn ystyried bod ein staff yn llysgenhadon i'n busnes ac i'r ardal. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn bobl leol sy'n siarad Cymraeg ac arferai llawer ohonynt weithio yn y chwarel yma.'

# Anturiaethau Rhyngwladol

Mae twristiaeth antur yn mynd o nerth i nerth ar hyn o bryd. Mae'n mynd yn fwyfwy poblogaidd ar draws y byd yn ogystal.

Caiff Ardal 47 o fewn yr Ötzal Valley yn Awstria ei disgrifio fel 'parc antur o'r radd flaenaf'. Dyma ddisgrifiad perffaith. Mae parc antur mwyaf Ewrop yn cynnig dewis rhyfeddol o weithgareddau yn ei ardaloedd awyr agored, dŵr ac oddi ar y ffordd. Mae'n cynnig y cyfan – gan gynnwys llety (mewn tipis a bythynnod) ynghyd ag ardal fwyd a digwyddiadau. www.area47.at/en

Mae Seland Newydd yn enwog am ei darpariaeth ar gyfer teithiau antur – ac yn arbennig yn Ynys y De ger Queenstown, sef hoff gyrchfan ymwelwyr â'r wlad. Mae'r golygfeydd ysblennydd yn gefndir gwych i deithiau yn llawn antur a chwilota. Mae'r chwaraeon yn cynnwys sgïo oddi ar y piste yn y gaeaf a pharagleidio, beicio mynydd a neidio bynji yn yr haeaf (Pont Grog Kawarau Gorge yw un o safleoedd gwreiddiol y gamp). I'r rhai llai anturus, Queenstown yw'r porth i Milford Sound, sy'n brofiad na allwch ei fethu. Mae tripiau yn cael eu cynnig ar gychod a choestsys. www.queenstownnz.co.nz

# Ein llysgenhadon

Dyma'n Llysgenhadon ar gyfer y Flwyddyn Antur.

**Bear Grylls.** Anturiwr, cyn filwr â Lluoedd Arbennig Prydain a'r Prif Sgowt ieuengaf erioed. Mae rhaglenni teledu llwyddiannus a phoblogaidd fel *Man vs Wild*, *Born Survivor* and *Running Wild* wedi creu enw iddo fel eicon antur rhyngwladol ac mae wedi ysgrifennu dros 15 o lyfrau am anturiaethau, gan gynnwys ei hunangofiant hynod lwyddiannus *Blood, Sweat and Tears*. Mae'r anturiwr o fri yn gwybod faint y gall Cymru ei gynnig 'Yng Nghymru fydd yr antur yn cychwyn yn 2016'.

**Tori James.** Ganed Tori yn Sir Benfro a hi oedd y ddynes gyntaf o Gymru i ddringo Everest. Cafodd ei phrofiadau eu cyflwyno yn y rhaglen ar y BBC *On Top of the World*. Mae hefyd wedi cwblhau taith feicio heb gymorth ar draws Seland Newydd ac wedi bod yn rhan o'r tîm merched yn unig cyntaf erioed i gwblhau'r Polar Challenge, sef ras heriol dros 360 milltir i Begwn magnetig y Gogledd. Dywedodd: 'Bydd y Flwyddyn Antur yng Nghymru'n creu cyfle gwych i fentro allan a rhoi cynnig ar bethau newydd. Does neb byth yn rhy hen na'n rhy ifanc i ddechrau crwydro o amgylch Cymru.'

**Maria Leijerstam.** Ganed Maria yn Aberdâr, a hi oedd y person cyntaf i feicio i Begwn y De – taith rewllyd dros 396 milltir (638km) ar hyd ffordd o ia o arfordir yr Antarctig. Mae hi hefyd wedi rhedeg ar draws anialwch y Sahara ac wedi beicio ar draws Llyn Baikal yn Siberia a oedd wedi rhewi. Mae Cymru wedi bod yn lleoliad hyfforddi ar gyfer ei hanturiaethau rhyngwladol. Meddai: 'Rwyf wedi teithio ar draws y byd ac wedi gweithio mewn sawl gwlad ond mae rhywbeth yn fy nenu yn ôl i Gymru bob amser'.

**Lowri Morgan.** Mae Lowri'n gyflwynydd ac yn gynhyrchydd teledu sydd wedi ennill BAFTA am ei gwaith ac yn rhedwraig marathon dycnwch Elite Ultra. Mae wedi profi anturiaethau amrywiol ar draws y byd. Mae hi'n un o ddim ond chwech o bobl sydd wedi cwblhau'r ras dycnwch dros 350 milltir (563km) 6633 Ultra yn yr Arctig ac mae hi hefyd wedi rhedeg Marathon 140 milltir y Jwngl yn yr Amazon. Meddai: 'Ble bynnag rwy'n teithio, mae pobl yn fwyfwy ymwybodol o'r cyfleoedd sy'n bodoli yma yng Nghymru i fwynhau anturiaethau. Mae popeth sydd ei angen arnoch ar garreg eich drws, gallwch nofio yn y môr yn y bore a rhedeg i fyny mynydd yn y prynhawn'.

**Richard Parks.** Arferai Richard Parks fod yn chwaraewr rygbi rhyngwladol dros Gymru ac mae bellach yn athletwr amgylchedd eithafol o fri sy'n wynebu heriau a theithiau rhyfeddol. Ef oedd y person cyntaf erioed i ddringo'r mynydd uchaf o fewn saith talaith y byd a sefyll ar y tri phegwn (Pegwn y Gogledd, Pegwn y De a chopa Everest) o fewn saith mis. Meddai: 'Pryd bynnag y byddwn yn dewis camu allan o'n bywydau arferol mae cyfle i fod yn fwy egnïol, i dyfu ac i ddysgu mwy am y byd o'n cwmpas.'

Prif nod y Flwyddyn Antur fydd codi ymwybyddiaeth o Gymru fel cyrchfan ar gyfer anturiaethau. Mae hyrwyddo anturiaethau diogel yn hollbwysig i ni a hefyd yn un o'n blaenoriaethau. Rydym yn cyfarwyddo ymwelwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnir gan ddarparwyr sydd wedi'u hachredu ac yn annog pobl i barchu'r amgylchedd naturiol ac i fod yn barod ar gyfer gweithgareddau awyr agored.

Cofiwch sicrhau eich bod yn derbyn y caniatâd angenrheidiol ar gyfer defnyddio delweddau trydydd parti ar eich deunyddiau marchnata. Yn arbennig, mae delweddau, logos ac asedau Roald Dahl yn destun cyfreithiau hawlfraint a gallai fod arnoch angen trwydded ar gyfer eu defnyddio. I gael rhagor o wybodaeth ynghylch hyn ewch i: https://www.roalddahl.com/global/contact-us/using-roald-dahls-stories-and-copyrights.

**llyw.cymru/twristiaeth**

**blwyddynantur@cymru.gsi.gov.uk**

**#AnturCymru**

© Hawlfraint y Goron 2015
WG26796